Mae Eglwys Sant Gwyddelan yn cynnal

**Bore Coffi Macmillan**

ar **ddydd Gwener, Medi'r 23ain ym**

**Mhafiliwn Dolwyddelan**

er budd

**Cymorth Cancr**

10.00yb tan Hanner dydd

Buasem yn gwerthfawrogi cacennau o bob math

Croeso ibawb

*Bydd yr arwerthiant yn mynd rhagddo fel arfer ar ôl y bore coffi.

---



## Faith a Christopher

Pur anaml mae Eglwys Sant Gwyddelan yn gweld achlysur mor ysblennydd â phriodas Faith Palmer a Christopher Bell oedd ar ddydd Sadwrn y 6ed o Awst 2016.

Daeth y morwynion priodas i'r eglwys gyda'r haul yn tywynnu ac mor dlws â'r blodau yn eu col. Ychydig wedyn cyrhaeddodd Faith mewn hen gar clasurol.



Roedd y ddwy forwyn briodas mewn gwisgoedd mefusgoch gyda sash gwyn, a morwynion y blodau mewn gwisgoedd gwyn gyda sash coch. Roedd giât yr eglwys wedi ei addurno â rhosod cochion, lilis gwynion a blodau calch.

**Llongyfarchiadau mawr i Mr. and Mrs. Bell, Dolwyddelan.**

---

## Llogi'r pafiliwn neu ystafell Gwyddelan

| | Busnes / Masnachol | Aelodau / Elusen / Lleol |
|---|---|---|
| Bob Awr | £25 | £10 |
| Hanner Diwrnod | £50 | £15 |
| Diwrnod  Llawn | £75 | £30 |

## Ar werth yn y pafiliwn:

**Cardiau cyfarch**
**Paentiadau**
**Llyrau cerdded**
**Jane's Tasty Cakes**
**Diodydd poeth**